# Ddim yn Iddew nac yn Roegwr

## Llythyr Bugeiliol at Deulu Asaph oddi wrth Esgob Gregory
## Dydd Iau 18 Mehefin 2009

Roeddwn i fod i ysgrifennu atoch ynghylch y Drindod heddiw, ond mae mater arall wedi codi cymaint ar ei ben ym mywyd ein cenedl fel nad oes modd ei osgoi. Efallai ei bod yn ymddangos yn rhyfedd fod marwolaeth dyn wrth gael ei arestio yn yr Unol Daleithiau wedi esgor ar brotestiadau mor enfawr a hyd yn oed ar anhrefn treisgar ar strydoedd Prydain Fawr, ond dyma rydyn ni wedi'i weld yn ystod y pythefnos diwethaf. Dylai marwolaeth yn y ddalfa gael ei drin, bob amser, fel rhywbeth hollol ddifrifol. Yn 2015, yn ôl yr ystadegau diweddaraf y gallwn i eu cael, bu farw 14 o bobl yn nalfa'r Heddlu yn y Deyrnas Unedig, ac, yn fwy diweddar, yn y flwyddyn hyd at Fawrth 2019, bu farw 286 o bobl mewn carchardai yn y DU, llawer o hunanladdiad. Mae'r rhain yn ystadegau poenus, mae pob un a fu farw yn blentyn, gŵr, rhiant, merch neu berthynas i rywun. Ond prin ein bod ni'n clywed amdanyn nhw. Eto, yn achos George Floyd, bu protestiadau lu yn y DU ac rydyn ni wedi gweld trais ar ein strydoedd.

Efallai bod rhai'n cael eu temtio i ofyn "Pam yr holl stŵr ynghylch y sefyllfa yn America, er mor ofnadwy y mae hi yno?" "Pam bod rhaid i ni ddweud bod Bywydau Du'n Cyfrif, pan mae pob bywyd, siŵr iawn, yn cyfrif?" Byddai'n cymryd mwy na llythyr bugeiliol i drafod hyn yn iawn, ond mae'n debyg fod yr un farwolaeth hon, yn cael ei dilyn yn fuan wedyn gan ail un, marwolaeth Rayshard Brooks, wedi creu adwaith fyd-eang. Mae hyn yn rhannol oherwydd fod eu diwedd wedi'i ddal ar fideo, ac mae'r lluniau i'w gweld yn dangos mai o droseddau pitw y cododd eu marwolaethau ac y gellid fod wedi'i hosgoi'n hawdd oni bai am gieidd-dra'r heddlu - a lliw.

Un o wirioneddau bywyd yw y gall gorthrwm fod bron yn anweledig i'r breintiedig. Gall dynion fod yn gyfangwbl anystyriol o rywiaeth a phobl syth o homoffobia. Yn drist, mae hefyd yn wir y gall fod yn syndod i'r dosbarth canol gwyn pam fod hiliaeth yn broblem. Gallaf ddweud wrthych nawr, pe na byddai'n broblem, na fyddai wedi dod â miloedd allan ar y strydoedd. Efallai fod dinasyddion da sy'n cadw'r gyfraith ac o gefndiroedd gwell yn gallu gweld ein heddlu fel ceidwaid cyfraith a threfn, ond mae'r pobl ddu neu liw yn llawer tebycach o gael eu stopio a'u chwilio. Rwy'n ysgrifennu hyn fel dyn gwyn hynod freintiedig, yn ddigon lwcus i fod ymysg y breintiedig rai a gafodd addysg yn rhai o gadarnleoedd dysg hynaf a gorau'r wlad. I mi, mae'r heddlu'n bileri cymdeithas, ac fe fyddaf yn eu cefnogi bob amser ac yn gwaredu unrhyw drais yn eu herbyn. Dydw i ddim mor siŵr y byddai'r rhai mwy anniddig yn ein cymdeithas yn gweld pethau'n union yr un fath. Nid cyhuddo'r heddlu yw hyn, rwy'n un o'u cefnogwyr, ond cydnabod nad yw'r fath ymddiriedaeth i'w gael ym mhob carfan o gymdeithas.

Roedd yr hen fyd yn un o haenau pendant. Roedd byddigion Rhufain ar ben y domen, y werin oedd y tlodion ond roedd hyd yn oed tlodion Rhufain yn cyfrif mwy na thramorwyr - y barbariad na allai siarad Lladin na Groeg yn iawn ac yn cael eu gwatwar am ddweud "Ba, ba, bar …" Ond roedden nhw, hyd yn oed, yn cyfrif mwy na'r caethion. Trodd Crist hyn i gyd a'i ben i lawr, yn llythrennol, gyda'r honiad radical fod pawb yn blant i Duw ac "Nid oes rhagor rhwng Iddew a Groegwr, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chi oll yng Nghrist Iesu" (Galatiaid 3.28). Yn y cyd-destun hwnnw, honiad yw hyn ynghylch ein hadnabyddiaeth newydd yng Nghrist, ar ôl cael ein bedyddio a'n hail eni, ond ysgydwodd Cristnogaeth seiliau'r gwareiddiad clasurol i'w seiliau drwy ddweud y gallai unrhyw un fod yn gyfartal â Caesar.

Ddim ond yr wythnos ddiwethaf, roeddwn yn cael fy nghyhuddo o ymyrryd ac o ymddygiad 'welwch chi fi' am ddweud nad ydw i'n rhy hoff o gerfluniau o un bachgen lleol a gododd yn y byd. Ond, byddai'n well i mi beidio â thrafod hynny yma! Ond, fel esgob, fel Cristion, rwy'n credu fod yn rhaid i ddilynwyr Iesu wneud yr hyn yr oedd yr Iesu ei hunan a'r proffwydi'n ei wneud, ac mai hynny, bob amser, yw codi llais o blaid y lleiaf breintiedig. Mae pob bywyd yn cyfrif a bu Crist farw dros bob un, ond mae'n rhaid i ni ddweud fod Bywydau Du'n Cyfrif oherwydd daeth cymunedau du a lliw i gredu nad yw eu bywydau nhw'n cyfrif gymaint,

Heddiw, mae ein ffydd yn gorfodi Cristnogion i sefyll gyda phobl y tu allan. "Yn gymaint ag ichwi ei wneud i un o'r rhai lleiaf o'r rhain, fy mrodyr" meddai Iesu, "i mi y gwnaethoch". Dywedodd Rowan Williams unwaith y dylai Cristnogion fod yn ofalus iawn wrth godi ffiniau oherwydd, fel arfer, bydd Iesu i'w weld yn codi ei law arnyn nhw o ochr arall y ffin.

